# Uchelgais Gogledd Cymru

# Prosiect Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig - Cynlluniau Grant 4G+

## Cefnogi cyflwyno cysylltedd symudol 4G a 5G ar draws Gogledd Cymru

### Cynllun Grant Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus

01 Cyllid ar gael i uwchraddio / ddisodli asedau sy'n eiddo i'r sector cyhoeddus er mwyn cefnogi seilwaith 4G / 5G

02 Ar gael i bob Sefydliad Sector Cyhoeddus sy'n berchen ar, yn gweithredu neu'n rheoli asedau cymwys yng Ngogledd Cymru

03 Asesir ceisiadau ar sail parodrwydd, gallu i'w cyflawni, effaith, rhwymedigaethau mynediad agored, a gwerth am arian. Rhaid i brosiectau ddangos ymrwymiad gan weithredwyr, gwariant cyfalaf cymwys, a chydymffurfiaeth â holl ofynion y cynllun

04 Gellir cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar unrhyw adeg

05 Gellir hawlio hyd at 100% o gyllid cyfalaf fel cyllid grant (dim gofyniad am gyllid cyfatebol)

06 Dylai'r lleoliadau a gyflwynir yn ystod y Datganiad o Ddiddordeb (EOI) gyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Prosiect. Gellir defnyddio model blaenoriaethu safleoedd Ambition Gogledd Cymru yma

07 Cwblhau'r prosiect – Ionawr 2030

VS

### Cynllun Grant y Diwydiant

01 Cyllid ar gael ar gyfer cyflwyno ac uwchraddio seilwaith symudol 4G / 5G ar draws Gogledd Cymru

02 Ar gael i Weithredwyr Rhwydweithiau Symudol, Gwesteiwyr Niwtral a Darparwyr Seilwaith

03 Rhaid i brosiectau ddarparu seilwaith 4G neu 5G newydd neu wedi'i uwchraddio mewn lleoliadau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol ar draws Gogledd Cymru, yn enwedig mewn mannau heb signal o gwbl (TNS) a mannau heb signal yn rhannol (PNS)

04 Gellir cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb yn ystod ffenestri cyllido penodol

05 Gellir hawlio hyd at uchafswm o 65% o gyllid cyfalaf fel cyllid grant (mae angen cyllid cyfatebol sy'n cyfateb i isafswm o 35%)

06 Bydd lleoliadau â blaenoriaeth yn cael eu rhannu fel rhan o gam y Datganiad o Ddiddordeb. Mae opsiwn hefyd i gyflwyno lleoliadau "oddi ar y rhestr" fel safleoedd amgen.

07 Cwblhau'r prosiect – Ionawr 2030

Dylid cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y ddau gynllun grant drwy Lwyfan "Find a Grant"
Yn dilyn yr asesiad, bydd y rhai sydd wedi cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb llwyddiannus yn cael eu gwahodd i'r cam cais llawn. Dylid cyflwyno'r ceisiadau llawn hyn hefyd drwy Lwyfan "Find a Grant"
Gall cyllid ar gyfer y ddau gynllun grant gefnogi buddsoddiad cyfalaf megis: seilwaith colofnau, cysylltiadau ffibr optegol, cysylltiadau pŵer, offer radio, cabinetau stryd, a chostau dylunio, gosod a rheoli prosiect.
Nid yw costau gweithredu yn gymwys.
Anogir ymgeiswyr Cynllun Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus i ymgysylltu â'r diwydiant rhwydweithiau symudol er mwyn cydlynu gweithgareddau ar safleoedd lle gallai buddsoddiad fod ar gael drwy'r ddau gynllun.
Anogir hefyd bod ymgeiswyr Cynllun Grant Diwydiant 4G+ yn ymgysylltu â sefydliadau'r sector cyhoeddus lle bo'n briodol.